GWYBODAETH I RIENI / GWARCHEIDWAID

Canllaw i

# FFORWM ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY) ÔL-16

Mae'r Fforwm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Ôl-16 yn fforwm amlasiantaeth sy'n gweithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ifainc ag ADY, sydd ar fin cyrraedd oedran ysgol gorfodol neu'n hŷn (hyd at 25 oed), gyda'u hopsiynau addysgol ôl-16.

RHONDDA CYNON TAF

## Beth yw pwrpas y Fforwm?

**Mae'r Fforwm yn cynnwys grŵp o weithwyr proffesiynol o amrywiol wasanaethau gan gynnwys Addysg, Gofal Cymdeithasol, Iechyd, Gyrfa Cymru, a Gwasanaethau Seicoleg Addysg ac mae'n darparu pwynt atgyfeirio canolog i drafod pobl ifainc.**

Mae'n gweithredu yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (ALNET) (Cymru) 2018, y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol a rheoliadau, i gyflawni cyfrifoldebau perthnasol yr awdurdod lleol (ALl).

Gall wneud penderfyniadau yn ymwneud â'r canlynol:

- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- paratoi a chynnal Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau)
- sicrhau Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), gan gynnwys cael lleoliad mewn sefydliad arbenigol.

Bydd y Fforwm yn trafod y ddarpariaeth addysgol fwyaf priodol sydd ar gael sy'n addas ar gyfer galluogi'r bobl ifainc i gyflawni'r deilliannau a ddymunir. Gall y Fforwm atgyfeirio at wasanaethau eraill os oes angen.

## Pryd y dylid atgyfeirio person ifanc at y Fforwm?

Mae'r Fforwm yn ystyried atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifainc y mae'n bosibl nad oes darpariaeth ar gael ar eu cyfer mewn Sefydliadau Addysg Bellach (SAB) neu ysgolion a gynhelir i ddiwallu eu hanghenion rhesymol am addysg neu hyfforddiant (gan gynnwys eu hanghenion rhesymol am DDdY i ymgymryd â'r addysg neu'r hyfforddiant hwnnw) neu mewn achosion lle efallai na fydd pobl ifainc yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth o'r fath a allai fel arall fod yn addas ar gyfer diwallu eu hanghenion.

**3 ffaith bwysig i'w gwybod cyn atgyfeirio at y Fforwm:**

1. Does dim hawl i addysg na hyfforddiant parhaus o'r adeg y bydd person yn hŷn na'r oedran ysgol gorfodol hyd at 25 oed.
2. Does dim chwaith gan bobl ifainc hawl i ddarpariaeth o'u dewis. (Er bydd y fforwm yn ystyried barn, dymuniadau a theimladau'r bobl ifainc).
3. Y disgwyl yw y bydd sefydliadau addysg bellach prif ffrwd, ac ysgolion a gynhelir mewn rhai achosion, fel arfer yn gallu diwallu anghenion addysg neu hyfforddiant y mwyafrif o bobl ifainc ag ADY a **rhaid** i'r ALl ystyried rhaglenni astudio yn y lleoliadau hyn yn gyntaf.

Mae'r ALl yn disgwyl i drafodaethau am addysg bellach neu hyfforddiant pobl ifainc gael eu cynnal yn rhan o'r adolygiadau CDU trosiannol sy'n digwydd cyn iddyn nhw adael yr ysgol ac yn ddigon cynnar fel bod modd trefnu unrhyw ddarpariaeth ofynnol ymlaen llaw.

Dylid cyflwyno atgyfeiriadau i'r Fforwm cyn gynted â phosibl ym mlwyddyn olaf addysg orfodol plentyn neu cyn diwedd cyfnod person ifanc yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arbennig a gynhelir.

## Pwy all atgyfeirio at y Fforwm ADY Ôl-16?

**Mae'n bwysig bod y person ifanc yn rhoi caniatâd cyn gwneud atgyfeiriad.**

Gall pobl/gwasanaethau sy'n gweithio'n agos gyda'r person ifanc, megis ysgol, sefydliad addysg bellach, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol arall, gyflwyno 'Ffurflen Gais am Leoliad Ôl-16', neu mae modd i'r person ifanc ei hun neu riant/gwarcheidwad lenwi'r ffurflen.

## Beth sy'n digwydd ar ôl atgyfeirio person ifanc?

**Bydd y Fforwm yn trafod y canlynol:**

- Canlyniadau a ddymunir gan y person ifanc.
- Pa ddarpariaeth a allai fod ar gael a fyddai'n addas i alluogi'r person ifanc i gyflawni'r canlyniadau hynny a ddymunir.
- A oes angen i'r ALl baratoi a chynnal, neu barhau i gynnal, Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer y person ifanc.
- Anghenion rhesymol y person ifanc am addysg neu hyfforddiant, ac anghenion rhesymol o ran y Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol a gynhwysir yn yr addysg/hyfforddiant hwnnw.
- Lle mae anghenion y person ifanc mor gymhleth y mae'n bosibl bod angen i'r ALl sicrhau lle mewn sefydliad arbenigol fel bod modd diwallu anghenion rhesymol y person ifanc.
- Cyfeirio at wasanaethau / darpariaeth arall.

## Sut mae'r ALl yn helpu i osgoi a datrys anghytundebau?

**Bydd trafodaethau a phenderfyniadau a wneir gan y Fforwm yn canolbwyntio ar anghenion y person ifanc a bydd y canlyniadau'n cael eu cyfleu'n glir i'r bobl ifainc a lle bo'n briodol, eu rhieni/gwarcheidwaid.**

Mae modd codi unrhyw bryderon am ganlyniadau'r Fforwm drwy gysylltu â'n Swyddog Cyswllt i Deuluoedd drwy ffonio
☎ **01443 744344** neu drwy fynd i'n gwefan **www.rctcbc.gov.uk**

Os bydd y mater yn parhau i fod heb ei ddatrys, mae modd gofyn am gymorth gan Dribiwnlys Addysg Cymru. Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn grŵp annibynnol o weithwyr proffesiynol a fydd yn adolygu'r achos ac yn ceisio rhoi arweiniad o ran y ffordd orau ymlaen. Dyma fanylion cyswllt y Tribiwnlys:

**Tribiwnlys Addysg Cymru**
Adeiladau'r Llywodraeth, Spa Road East, Llandrindod, Powys, LD1 5HA
☎ **0300 025 9800** ✉ **Tribunal.Enquiries@llyw.cymru**

## Pa gymorth sydd ar gael?

**Pan fydd angen cymorth mae modd ei geisio gan eiriolwr.**

Eiriolwr yw rhywun a fydd yn siarad ar eich rhan. Gall fod yn ffrind, aelod o'r teulu neu'n asiantaeth broffesiynol.

Os oes angen eiriolwr proffesiynol arnoch chi, cysylltwch â SNAP Cymru:

☎ **0808 801 0608 (Llinell gymorth)**
☎ **02920 348 990** ✉ **enquiries@snapcymru.org**

## Rhagor o wybodaeth a chyngor

Mae'r canllaw yma'n rhoi trosolwg o waith y Fforwm.

- I gael rhagor o wybodaeth:
  ✉ **GweinydduADY@rctcbc.gov.uk** ☎ **01443 744344**
  Mynediad a Chynhwysiant, Canolfan Menter y Cymoedd, Parc Hen Lofa'r Navigation, Aberpennar CF45 4SN

- I gael rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth SAB, ewch i wefan Braenaru ADY **www.braenaruady.cymru**
- Cyfeiriwch at God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 am ganllawiau statudol a gofynion ar awdurdodau lleol **www.llyw.cymru/y-cod-anghenion-dysgu-ychwanegol**